| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 22 Chwefror 2024 |
| **Teitl** | Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Pwrpas** | Adolygiad o drefniadau cynnal ymylon ffyrdd y Sir |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cyflwynodd yr Adran adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Ionawr 2023 er mwyn ei ddiweddaru ar y treialon torri-a-chasglu a oedd yn cymryd lle mewn ardaloedd dethol o fewn y Sir i hyrwyddo anghenion bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, ac i godi ymwybyddiaeth am y trefniadau torri gwair presennol ar ein ffyrdd sirol.

1.2 Adroddwyd bryd hynny fod rheolaeth ymylon ffyrdd Gwynedd yn hanesyddol wedi canolbwyntio ar ystyriaethau diogelwch yn hytrach nag unrhyw fuddion ehangach fel cefnogi bioamrywiaeth. O ganlyniad, roedd yr Adran wedi partneru gyda'r Adran Amgylchedd i ddenu arian grant i gynnal treialon torri-a-chasglu er mwyn ceisio hybu anghenion amgylcheddol.

1.3 Adroddwyd hefyd fod yr Adran ar fin mynd allan i gontract newydd am wasanaethau torri gwair ymylon ffyrdd gwledig i gychwyn yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24.

1.4 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd y treialon a'r contract torri ymylon ffyrdd newydd, a'u cyfarwyddo am nodau ac amcanion yr Adran wrth symud ymlaen.

## 2. Treialon torri a chasglu

### 2.1 Cyd-destun deddfwriaethol a strategol

Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru fodloni llawer o ddyletswyddau i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hybu cydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys y canlynol:

- **COP15 - Fframwaith amrywiaeth y Cenhedloedd Unedig i fynd i'r afael â'r golled fyd-eang o amrywiaeth ac adfer ecosystemau naturiol 2022.**
  *Diogelu 30% o ardaloedd daearol, dŵr mewndirol, ac ardaloedd arfordirol a morol erbyn 2030.*
- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Adran 6.**
  *Dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o'u polisïau a'u prosesau.*
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**
  *Dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.*
- **Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru 2013.**
  *Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer polisïau a llywodraethu cydgysylltiedig, a chynefinoedd gwell a mwy cysylltiedig, er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn pryfed peillio yng Nghymru.*

2.1.1 Mae gofyn i swyddogion y Cyngor gydymffurfio a’r rhain hefyd:

- **Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Gwynedd 2019**
  *Cynllun y Cyngor ar gyfer cyfarch ei ddyletswydd Adran 6 mewn perthynas â chynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch*.
- **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022**
  *Cynllun y Cyngor i gyrraedd ei uchelgais o fod yn gyngor sero net erbyn 2030.*

## 2.2 Rheoli ymylon ffyrdd ar gyfer peillwyr

2.2.1 Mae pryfed peillio wedi gweld dirywiad byd-eang ac mae hyn yn bennaf oherwydd colli a darnio cynefinoedd. Er mwyn cynnal peillwyr, mae angen cynyddu ansawdd a maint y cynefinoedd sy'n darparu bwyd (blodau, neithdar a phaill), cysgod, â safleoedd nythu ar eu cyfer. Mae ymylon ffyrdd yn gallu bod yn addas gan eu bod yn ymgorffori amrywiaeth o fathau o gynefin gan gynnwys glaswelltir, gwlypdiroedd, gwrychoedd a phrysgwydd. Felly, gyda rheolaeth briodol, mae ganddynt botensial arbennig o uchel i gefnogi pryfed peillio.


2.2.2 Yn hanesyddol, mae rheolaeth ymylon ffyrdd Gwynedd wedi tueddu i ganolbwyntio ar ystyriaethau diogelwch. O ganlyniad, mae ein hymylon o bosib wedi cael eu torri’n rhy aml, ar yr adegau anghywir, gyda gwair yn cael ei adael yn y fan a'r lle ar ôl torri. Fodd bynnag, nid yw'r math yma o reolaeth yn ddelfrydol i gefnogi pryfed peillio.

2.2.3 Cydnabyddir mai’r ffordd orau o gynorthwyo i gefnogi pryfed peillio, nid yn unig ar ymylon ffyrdd ond ardaloedd eraill o laswelltir, yw drwy fabwysiadu trefn thorri a chasglu. Mae casglu’r gwair ar ôl ei dorri’n bwysig oherwydd:

- ei fod yn atal llystyfiant marw rhag cronni a mygu planhigion eraill fel blodau gwyllt.
- ei fod yn gadael mwy o dir agored i ganiatáu i hadau dyfu.
- ei fod yn lleihau ffrwythlondeb pridd ac felly’n cynorthwyo i arafu twf rhai mathau o wair sy'n tagu blodau gwyllt.

2.2.4 Yn ogystal, mae angen lleihau ar y nifer o doriadau er mwyn rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu a ffynnu. Yn ddelfrydol, dim ond unwaith y flwyddyn y dylid torri a chasglu'r ymylon, a hynny o gwmpas mis Medi. Fodd bynnag, efallai hefyd y bydd angen toriadau ychwanegol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, neu'n gynnar yn y flwyddyn ganlynol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dangosir y drefn ddelfrydol ar gyfer trefn torri a chasglu isod:

Cyfundrefn torri delfrydol ar gyfer cefnogi bioamrywiaeth




Cylch twf a thorri blynyddol ar gyfer blodau gwyllt cynhenid

Llawlyfr Hyfforddiant Natur Wyllt, Sir Fynwy

### 2.3 Gweithredu'r treialon

2.3.1 Yn awyddus i wneud gwahaniaeth a chwrdd dyletswyddau a gofynion deddfwriaethol a strategol y Cyngor, datblygwyd cynllun i dreialu cyfundrefn torri a chasglu ar rai o ffyrdd y Sir.

2.3.2 Roedd yr Adran yn falch o allu partneru gyda'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth yn yr Adran Amgylchedd i weithredu'r cynllun. Yn ogystal â chynorthwyo i ddatblygu'r cynllun, llwyddodd y Gwasanaeth i sicrhau cyllid drwy'r Bartneriaeth Natur Gwynedd ar gyfer cynnal y treialon.

2.3.3 Aseswyd gwahanol leoliadau; fodd bynnag, penderfynwyd yn y pen draw i leoli'r treialon ar safleoedd ar yr A499 a'r A497 yn Nwyfor. Yn ogystal â bod yn gymharol ddiogel, dewiswyd y safleoedd oherwydd eu bod yn syth, llydan, a hir ac felly yn ddigon mawr i ddarparu data ystyrlon y gellid ei ddefnyddio i gyfiawnhau newid yn y drefn torri gwair. Dewiswyd y ffyrdd hyn hefyd oherwydd eu bod wedi'u dynodi'n Blines, h.y. coridorau llinol o gynefinoedd llawn blodau y gellir ymfudo neu wasgaru bywyd gwyllt ar eu hyd (gweler **Atodiad A** am ragor o wybodaeth am y Blines). Bonws oedd eu bod hefyd ar ddwy o'r prif ffyrdd yn arwain at Eisteddfod Llyn ac Eifionydd ac felly'n cynnig cyfle i hyrwyddo'r treialon i gynulleidfa lawer ehangach. Mae safleoedd y treialon, ynghyd â safleoedd tebyg eraill a ddatblygwyd gan yn y Gwasanaeth Bioamrywiaeth, wedi'u dangos isod:




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2023 Arolwg Ordnans AC0000821460 - Cyngor Gwynedd

2.3.4 Aseswyd gwerth bioamrywiaeth pob safle cyn cychwyn ar y gwaith fel y gellir gwneud cymhariaeth unwaith y daw'r cyfnod prawf i ben yn 2025. Dechreuodd y gwaith o baratoi'r safleoedd, h.y. torri a chasglu'r gwair a chreithio'r wyneb i gael gwared ar lystyfiant anaddas, yn Hydref 2022. Yna, heuwyd y safleoedd gyda hadau blodau gwyllt cynhenid fel cribell felen (yellow rattle); blodyn sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i greu neu adfer dolydd blodau gwyllt gan y gall helpu i atal tyfiant gweiriau sy'n tagu blodau gwyllt a hefyd yn ailgylchu maetholion pridd. Gweler isod luniau o safle ger Clynnog Fawr ar yr A499 ar ôl ei baratoi ar gyfer hadu:





2.3.5 Ffynnodd y safleoedd yn ystod gwanwyn 2023. Fodd bynnag, fel y disgwyl, ni wnaethant gynhyrchu digonedd o flodau gwyllt lliwgar yn y flwyddyn gyntaf. Er hynny, roedd y canlyniadau ym mhob un o'r safleoedd yn hynod addawol ac yn ddangosydd cynnar bod y treialon yn llwyddiannus. Disgwylir y bydd yr arddangosfa flodau yn sylweddol well y flwyddyn nesaf, a thros y blynyddoedd dilynol, wrth i'r gyfundrefn reoli newydd ar gyfer y safleoedd hyn ddatblygu. Tynnwyd y lluniau isod ym mis Mehefin y llynedd:









2.3.5 Eithriwyd y safleoedd hyn o'r rhaglen arferol ar gyfer torri ymylon gwledig (toriad cyntaf yn ystod y gwanwyn) er mwyn caniatáu i'r blodau gwyllt ffynnu. Fodd bynnag, yn unol â'u cynllun rheoli, bu iddynt gael eu torri a'u casglu gan offer arbenigol yn ystod mis Medi.

## 2.4 Hyrwyddo'r treialon

2.4.1 Gall ymylon ffyrdd sy'n cael eu gadael heb eu torri yn ystod y gwanwyn gael eu hystyried yn flêr gan y cyhoedd a defnyddwyr ffyrdd. O ganlyniad, roedd yn hollbwysig ein bod yn rheoli canfyddiad y cyhoedd o'r treialon yn ogystal â hyrwyddo ein huchelgais i ymestyn y cynllun torri a chasglu yn y dyfodol.

2.4.2 Felly, hysbyswyd pob Aelod Lleol a Chyngor Cymuned lle lleolwyd y safleoedd am y treialon a chodwyd arwyddion ‘Iddyn Nhw’ (ymgyrch gan Lywodraeth Cymru i geisio newid meddylfryd pobl mewn perthynas â thorri gwair er budd natur) ar bob safle unigol (gweler **Atodiad B** am fanylion yr arwyddion).




2.4.3 Codwyd ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cynllun hefyd drwy’r cyfryngau cymdeithasol:



2.4.4 Yn fwy cyffrous, hyrwyddwyd y treialon ar stondin y Cyngor ar faes Eisteddfod Llyn ac Eifionydd. Roedd hyn yn cydredeg ag ymgyrch yr Adran Amgylchedd i hyrwyddo eu cynllun Dolydd Blodau Gwyllt Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd dalgylch yr Eisteddfod er mwyn sefydlu rhwydwaith o gynefinoedd blodau gwyllt.





2.4.5 Bu i'r holl waith da gan y Gwasanaeth Bioamrywiaeth a'r Adran hon gael ei ddefnyddio gan Gweinidog yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru fel esiampl o sut mae awdurdodau lleol wedi ymgorffori a hyrwyddo egwyddorion 'Iddyn Nhw' a chanmolodd yn arbennig sut mae'r Cyngor wedi cofleidio amcanion y Bartneriaeth Natur Leol.

2.4.6 Cyhoeddwyd erthygl am y treialon yn rhifyn 2022 o Dolydd Llyn (gweler **Atodiad C** - tudalen 8).

2.4.7 Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynhyrchu fideos/animeiddiadau i hyrwyddo arferion torri gwair da ar ymylon ffyrdd a ddylai'r rhain fod ar gael i'w dosbarthu'n fuan.

**2.5 Y camau nesaf**

2.5.1 Mae'r canlyniadau ar lawr gwlad, a'r sylwadau cadarnhaol sydd wedi'u derbyn hyd yma ynghylch y treialon a'n hawydd i wella ymylon ffyrdd a mannau agored cyhoeddus er budd natur, wedi sbarduno'r Adran nid yn unig i barhau â'r treialon presennol ond i'w hymestyn i ffyrdd B-Lines eraill o fewn y Sir yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. I'r perwyl hwn, mae trafodaethau wedi cychwn gyda'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth a'r Swyddfeydd Ardal er mwyn llunio cynllun ar eu cyfer.

2.5.2 Mae'r mwyafrif o'r gwaith ar y safleoedd hyd yma wedi'i wneud gan gontractwr arbenigol lleol. Fodd bynnag, mae'r Adran yn awyddus i wneud y math yma o waith ei hun ac ennill arbenigedd yn y maes. Gyda hyn mewn golwg, budd mawr arall o weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth yw eu bod wedi gallu caffael offer arbenigol, gan gynnwys tractor, peiriant casglu, belar ac ati, eto trwy'r Bartneriaeth Natur Gwynedd, ar ein cyfer i allu gwireddu hyn. Mae crynodeb o'r offer sydd wedi'i gaffael hyd yma wedi'i gynnwys yn **Atodiad D**. Mae Gwasanaeth Cynnal Tiroedd yr Adran eisoes wedi cychwyn defnyddio'r offer i ymgymryd â phrosiectau ar ran y Gwasanaeth Bioamrywiaeth a bwriedir iddynt barhau â'r cynllun rheoli ar gyfer y safleoedd prawf presennol yn ogystal â pharatoi unrhyw safleoedd prawf ar ymylon ffyrdd yn y dyfodol.

2.5.3 Wrth iddynt ennill profiad ar ffyrdd a thiroedd y Cyngor, mae potensial iddynt yn y pen draw allu cynnig eu gwasanaethau i awdurdodau neu sefydliadau eraill sy'n dymuno gwneud gwaith tebyg er mwyn gwella eu ffyrdd a'u tiroedd er budd natur.

## 3. Contract gwasanaethau torri gwair gwledig newydd

3.1 Un unol a Chynllun Cynnal Asedau Priffyrdd y Cyngor - 2010, byddai'r Adran yn torri ymylon ar yr holl ffyrdd gwledig sirol dwywaith y flwyddyn (rhwng Mai a Mehefin a rhwng Medi a Hydref) heb fawr o ystyriaeth i fioamrywiaeth.

3.2 Rhoddodd yr Adran gontract allan am wasanaethau torri gwair ymylon ffyrdd gwledig newydd ar gychwyn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, yn fwy ymwybodol erbyn hyn o sut y gall ein cyfundrefn torri effeithio ar fioamrywiaeth, rydym yn parhau i dorri ein hymylon ddwywaith y flwyddyn ond wedi cyfyngu ar faint o laswellt rydym yn ei dorri. O ganlyniad, rydym nawr yn torri ystod 1 medr o led ar ein ffyrdd Dosbarth 1 a 2 yn unig yn y gwanwyn, a thorri ystod 1 medr o led ar ein ffyrdd Dosbarth 3 a Di-ddosbarth, a lled llawn yr ymylon ar ein ffyrdd Dosbarth 1 a 2, yn yr hydref.

3.3 Bydd y contract yma yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 gydag opsiwn i'w ymestyn yn flynyddol am ddwy flynedd yn dilyn hynny. Y gobaith yw y byddwn wedi paratoi polisi torri gwair gwledig newydd yn seiliedig ar ganlyniadau'r treialon torri a chasglu o fewn y cyfnod hwn ac y bydd unrhyw gyfundrefn newydd yn cael ei adlewyrchu yn y paratoadau ar gyfer y contract nesaf.

## 4. Ystyriaethau pellach

4.1 Mynegwyd pryderon yng nghyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Craffu ynglŷn â'r effeithiau posibl ar iechyd a diogelwch defnyddwyr ein ffyrdd o ganlyniad i ymylon gael eu gadael heb eu torri er mwyn hybu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau y bydd iechyd a diogelwch bob amser yn cael blaenoriaeth ac ni fydd unrhyw safle yn cael ei ystyried os oes potensial iddo effeithio ar lles defnyddwyr.

4.2 Mynegwyd pryderon hefyd am y posibilrwydd na fyddai rhai ymylon o fewn ein trefi a'n pentrefi yn cael eu torri o ganlyniad i'r treialon a gallai hyn gael effaith ar eu hedrychiad. Fodd bynnag, er ein bod yn anelu at ymestyn unrhyw drefn newydd i ardaloedd trefol er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, bydd yr ardaloedd lle bydd hyn yn digwydd yn cael eu dewis yn ofalus fel eu bod yn ategu'r dirwedd bresennol ac yn sicrhau nad ydynt yn cael effaith ormodol ar edrychiad canol pentrefi a threfi. Pan fyddwn yn cynnwys lleoliadau o fewn trefi a phentrefi i'r dyfodol, yna byddwn yn sicrhau bod yr Aelod Lleol a'r cyngor cymuned/tref berthnasol yn rhan o'r penderfyniad cyn symud ymlaen.

## 5. Casgliad

5.1 Mae am gymryd amser i symud i ffwrdd o'r ffordd draddodiadol o gynnal ein hymylon ffyrdd fel eu bod o fudd i natur yn y dyfodol. Fodd bynnag, y cynharaf y byddwn yn dechrau, y cynharaf y gallwn ddechrau gwneud gwahaniaeth. Y gobaith yw y bydd y treialon yr ydym yn eu cynnal ar hyn o bryd, ac y byddwn yn eu cynnal yn y dyfodol, yn gwneud gwahaniaeth yn y pen draw drwy helpu i greu coridorau bioamrywiaeth, neu 'insect superhighways' fel y'u gelwir yn aml, er mwyn cefnogi adferiad rhywogaethau sydd dan fygythiad ac adfer poblogaethau toreithiog o bryfed sy'n hanfodol ar gyfer peillio ein cnydau a'n blodau gwyllt.